**Tasg 3**

# Cardiau Nadolig

1. Pan fyddwch chi'n meddwl am y Nadolig, pa fath o luniau sy'n dod i'ch meddwl chi?

2. Ble rydych chi'n gweld y lluniau hyn fel arfer? Gwnewch nodiadau.

3. Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.

Ewch i'r dudalen nesaf.

4. Darllenwch y darn isod.

**Cardiau Nadolig**

Mae'n siŵr bod llawer o'r lluniau rydych chi wedi cyfeirio atyn nhw uchod i'w gweld ar gardiau Nadolig, ond pwy ddechreuodd yr arfer o anfon cardiau Nadolig, tybed?

**Y cerdyn Nadolig cyntaf**

Mae'n siŵr mai Henry Cole yw enw'r dyn gafodd y syniad am greu'r cerdyn Nadolig.

Yn 1843, cafodd syniad am beth hoffai ei gynnwys ar gerdyn a gofynnodd i'w ffrind, J.C. Horsley, a oedd yn artist, gynllunio'r cerdyn.

Felly, cynlluniodd Horsley gerdyn mewn tair rhan. Yn y canol roedd llun o deulu'n dathlu'r gwyliau ond ar y ddwy ochr roedd lluniau o bobl yn helpu'r tlodion.  Ar dop y cerdyn roedd y geiriau, "To ...." ac yn y canol, roedd y geiriau "A Merry Christmas and a Happy New Year To You."




*Llun: [FirstX-MasPostcard1843]() – John Callcott Horsely, London © Wikimedia Commons*

Erbyn heddiw, mae cannoedd o wahanol fathau o gardiau Nadolig ar gael, wrth gwrs – rhai'n dangos geni Crist ym Methlehem, rhai'n dangos robin goch neu gelyn, rhai'n dangos Siôn Corn neu gymeriadau hoffus eraill ac mae rhai'n ddoniol hyd yn oed.

5. Beth yw'ch barn chi am y cerdyn?
   Rhowch resymau dros eich barn.

6. Ydy dangos pobl yn mwynhau'r ŵyl a phobl yn helpu'r tlodion ar yr un cerdyn yn syniad da?
   Rhowch reswm dros eich ateb.

7. Sut mae rhai cardiau heddiw yn ceisio helpu'r tlodion a phobl anghenus?

8. Cynlluniwch gerdyn i helpu mudiad arbennig.
   Rhaid dewis:
   - llun addas ar gyfer y tu blaen
   - cyfarchiad addas y tu mewn – ac ar y tu blaen efallai
   - darn ysgrifenedig ar y cefn sy'n egluro pwy mae'r cerdyn yn helpu a'r rhesymau dros hyn.

9. Rydych chi'n cysylltu â chwmni argraffu i ofyn iddyn nhw argraffu'r cerdyn. Yn ogystal ag anfon y cerdyn ei hun, rhaid i chi gynnwys disgrifiad manwl o'r cerdyn a'r rhesymau pam rydych chi wedi cynllunio'ch cerdyn chi.

   Ysgrifennwch y darn (llythyr neu e-bost). Rhaid i chi:

   - egluro pam rydych chi'n cysylltu
   - disgrifio'r cerdyn yn fanwl
   - egluro pam rydych chi wedi dewis cefnogi'r elusen / mudiad arbennig
   - cloi'r darn yn addas.

   Trafodwch syniadau a phatrymau iaith posibl o flaen llaw.